



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff sy'n cael ei Noddi gan Lywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Diben

Rhestr wirio yw'r ddogfen hon i helpu ein staff i nodi materion i wneud sylw arnynt mewn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio. Nid yw'n rhestr gyflawn ac nid yw'n cymryd lle unrhyw ddyletswydd ddeddfwriaethol, gyfreithiol neu arall y gellir ei gorfodi.

Byddwn yn parhau i adolygu'r rhestr wirio, er enghraifft i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth, cyfraith achosion, adborth gan awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr a'n profiad o'i heffeithiolrwydd.

Cysylltiadau

planning@naturalresourceswales.gov.uk/cynllunio@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Rhestr Wirio

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud sylw ar gynigion datblygu:

1. Sydd mewn safleoedd Ewropeaidd neu sy'n debygol o effeithio arnynt: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (dynodedig ac ymgeiswyr), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (dosbarthedig a photensial) a safleoedd Ramsar (dynodedig ac arfaethedig).
2. Sydd mewn safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu sy'n debygol o effeithio ar safleoedd o'r fath; neu sydd mewn ardal ymgynghori o gwmpas SoDdGA y rhoddwyd gwybod amdano i'r awdurdod cynllunio lleol gan CNC.
3. Sydd mewn safleoedd Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR), Gwarchodfeydd Natur Morol (MNR) a safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (GCR).
4. Sy'n debygol o effeithio ar Rywogaethau Dan Warchodaeth Ewropeaidd, pan nodwyd yr angen am arolwg, y cynhaliwyd arolwg a bod angen cyngor pellach ar yr awdurdod cynllunio lleol.
5. Sy'n debygol o effeithio ar rywogaethau dan warchodaeth genedlaethol lawn o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, pan nodwyd yr angen am arolwg, y cynhaliwyd arolwg a bod angen cyngor pellach ar yr awdurdod cynllunio lleol.
6. Lle mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gan gynnwys y cam cwmpasu a cheisiadau ynghyd â Datganiad Amgylcheddol ond heb gynnwys sgrinio (oni bai y daw'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru i'w ganiatáu i roi cyfarwyddyd sgrinio mewn perthynas ag apêl neu alw i mewn).
7. Sy'n debygol o effeithio ar ddibenion Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
8. Sy'n debygol o effeithio'n fwy nag yn lleol yn unig ar dirwedd hanesyddol a restrwyd yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru (CADW/CCGC).
9. Sy'n debygol o effeithio ar gwrs dŵr gan gynnwys:
 - a. Cynnal gwaith neu weithgareddau ar wely neu ar lannau afon neu nant, gan gynnwys gollwng i gwrs dŵr;
 - b. Datblygu ar neu o dan unrhyw glawdd llifogydd, amddiffynfa forol neu strwythur rheoli llif arall; neu
 - c. Agor ffosydd draenio llif unrhyw afon neu nant, gan gynnwys pibellu; neu
 - d. Ddatblygiad o fewn 7 metr i Brif Afon.
10. Sy'n ymwneud â defnyddio tir fel mynwent, gan gynnwys estyniadau.
11. Ar gyfer cyfleusterau anifeiliaid dwys gan gynnwys ffermio pysgod, pysgodfeydd, ffermio dofednod a moch.

12. Sydd wedi'u lleol ym mharthau llifogydd C1 a C2 fel y diffiniwyd gan Fapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru; a/neu fapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (Parth 2 a 3), ac eithrio estyniadau hyd at 250m².
13. Sy'n cynnwys gwaith paratoi'r pridd a/neu waredu dŵr budr neu ddŵr wyneb o fewn Parthau Diogelu Tarddiad Dŵr, Parthau Perygl Nitradau neu barthau diogelu dŵr diffiniedig.
14. Ar gyfer sefydliadau newydd; neu addasiadau i sefydliadau presennol a allai achosi sgil-effeithiau sylweddol ar beryglon damweiniau mawr; neu o fewn 250 metr, lle mae'r lleoliad neu'r datblygiad yn cynyddu'r risg neu ganlyniadau damwain fawr.
15. Ar dir halogedig posibl a allai lygru dyfroedd sy'n cael eu rheoli.
16. Cynnwys defnydd tir i ddyddodi sbwriel neu wastraff.
17. Cynnwys gwaith paratoi'r pridd ar safleoedd tirlenwi hanesyddol neu o fewn 250 metr i safle tirlenwi agored actif.
18. Ymglymu neu gynnwys gweithrediadau mwyngloddio.
19. At ddiben puro neu storio olewau mwynol a'u deilliadau.
20. Sy'n ymwneud â chadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnach, slyri neu slwtsh (ac eithrio gosod y carthffosydd, adeiladu tai pwmpio mewn rhes o garthffosydd, adeiladu tanciau carthion a charthbyllau penodol i dai annedd, carafanau neu adeiladau sengl lle nad oes mwy na deg o bobl fel arfer yn byw, yn gweithio neu'n ymgynnull a gwaith ategol at hynny).

Yn ogystal, unrhyw –

21. Apeliadau cynllunio sy'n berthnasol i wrthwynebiad neu amod a gynghorwyd gan CNC neu ei gyrff blaenorol (y Cyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru).
22. Apeliadau cynllunio sy'n berthnasol i fethu â phenderfynu ar geisiadau cynllunio lle mae'r cynigion yn dod o dan un neu ragor o'r meini prawf a restrir yn y ddogfen hon.
23. Camau Cynlluniau Datblygu Lleol.
24. Canllawiau Cynllunio Atodol.
25. Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

Ni flaenoriaethir y rhestr hon a gallai mwy nag un maen prawf fod yn weithredol.